Eich gwasanaeth casgliadau Ailgylchu ar Wahân newydd

Tachwedd 2026



Sir Gâr yn ailgylchu
Carmarthenshire recycles

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire
County Council

At ddefnydd y swyddfa yn unig: 09/26

Beth sy'n newid?

Mae eich cartref yn newid i'r **gwasanaeth casgliadau Ailgylchu ar Wahân newydd.**

Bydd angen i chi ddechrau didoli eich deunydd ailgylchu i sachau a bagiau ar wahân newydd sy'n gallu cael eu hailddefnyddio.

Rydyn ni wedi rhoi i chi:

- **sach goch,** sy'n gallu cael ei hailddefnyddio, ar gyfer **metelau, plastigion** a **chartonau**
- **sach oren,** sy'n gallu cael ei hailddefnyddio**,** ar gyfer **cardbord**
- **sach las,** sy'n gallu cael ei hailddefnyddio, ar gyfer **papur**
- **rholyn o fagiau coch** ar gyfer **bagiau a deunydd lapio plastig**
- **sach wen fach,** sy'n gallu cael ei hailddefnyddio, ar gyfer **batris cartref**

Fyddwn ni ddim yn casglu eich deunydd ailgylchu mewn bagiau glas untro mwyach.

Byddwn ni'n casglu eich **deunydd ailgylchu bob wythnos.**

Mae hyn yn cynnwys:

- **poteli a jariau gwydr o'r bocs du** sydd gennych chi eisoes (byddwn ni'n casglu hwn bob wythnos yn hytrach na phob tair wythnos)
- **gwastraff bwyd o'r bin bwyd** sydd gennych chi eisoes (rydyn ni eisoes yn casglu hwn bob wythnos)

Efallai y bydd eich diwrnodau casglu ar gyfer gwastraff bwyd a deunydd ailgylchu yn newid.

Byddwn ni'n parhau i gasglu hyd at 3 bag du o wastraff na ellir ei ailgylchu o'ch cartref bob tair wythnos, ond efallai y bydd eich **diwrnod casglu a/neu'ch wythnos gasglu yn newid.**

Os ydych chi'n derbyn gwasanaeth casglu gwastraff hylendid a chewynnau a/neu wastraff gardd, bydd eich diwrnodau casglu ar gyfer y gwasanaethau hyn yn aros yr un peth.

Bagiau glas dros ben?
Os oes gennych chi unrhyw fagiau glas untro dros ben ar ôl i chi ddechrau defnyddio'ch sachau a'ch bagiau ailgylchu newydd, rhowch nhw i deulu neu ffrindiau sydd heb ddechrau defnyddio'r gwasanaeth newydd eto, neu gallwch chi eu dychwelyd i unrhyw un o Ganolfannau Hwb y Cyngor, yng Nghaerfyrddin, Llanelli neu Rydaman.



Gwiriwch eich dyddiadau casglu unrhyw bryd!

Sganiwch y cod QR neu ewch i
www.sirgar.llyw.cymru/ailgylchu
i lawrlwytho eich calendr casgliadau

Gallwch chi hefyd gofrestru i dderbyn negeseuon e-bost neu negeseuon testun **AM DDIM** i'ch atgoffa o'ch casgliadau ailgylchu a'ch casgliadau gwastraff
sirgar.llyw.cymru/atgoffa



Beth sy'n mynd i ble?

Gwastraff bwyd





Ie plîs

- Bagiau te wedi'u defnyddio a gwaddodion coffi
- Plisgyn wyau
- Croen ffrwythau a philion llysiau
- Cig a physgod amrwd ac wedi'u coginio, gan gynnwys esgyrn a chregyn
- Sbarion diangen ar blât
- Hen fara
- Gweddillion na ellir eu storio'n ddiogel i'w bwyta'n ddiweddarach
- Bwyd nad yw bellach yn ddiogel i'w fwyta
- Bwyd anifeiliad anwes

Dim diolch

- Deunydd pecynnu o unrhyw fath
- Unrhyw ddeunydd nad yw'n wastraff bwyd
- Hylifau megis llaeth - gallwch chi arllwys ychydig bach o fwyd hylifol neu ddiod i lawr y sinc, yn ddelfrydol ar yr un pryd ag ychydig o ddŵr i sicrhau bod y gwastraff yn llifo'n hawdd, heb achosi rhwystr.

Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol mewn cynhwysydd addas:

- Olewau neu frasterau hylifol

Rhowch yr eitemau hyn yn eich sach goch ar gyfer metelau, plastigion a chartonau:

- Podiau coffi

Cofiwch wneud y canlynol:

- Pan fydd angen mwy o fagiau gwastraff bwyd arnoch chi ar gyfer eich cadi bwyd, clymwch un o amgylch handlen eich bin gwastraff bwyd. Ar eich diwrnod casglu nesaf, byddwn ni'n gadael rholyn newydd naill ai ar ben eich bin neu wrth ei ymyl.

Rydyn ni'n casglu **gwastraff bwyd** o'ch cartref **bob wythnos.**

Beth sy'n mynd i ble?

Poteli a jariau gwydr



Ie plîs

- Poteli gwydr, fel poteli cwrw, gwin a diodydd meddal
- Jariau gwydr, fel jariau bwyd babanod a sawsiau
- Poteli a jariau gwydr nad ydyn nhw ar gyfer bwyd a diod, fel y rhai ar gyfer persawr, persawr eillio ac eli wyneb

Cofiwch wneud y canlynol:

- Gwagio a rinsio eitemau gwydr
- Tynnu unrhyw gapiau neu gaeadau metel neu blastig a'u rhoi yn eich sach goch ar gyfer metelau, plastigion a chartonau

Dim diolch

Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol neu rhowch nhw yn eich bagiau du:

- Crochenwaith neu lestri
- Gwydrau yfed
- Bylbiau golau
- Gwydr fflat, fel ffenestri
- Drychau
- Gwydr coginio, fel Pyrex
- Platiau microdon
- Fasys
- Poteli farnais ewinedd
- Gwydr sydd wedi torri

Cofiwch wneud y canlynol:

- Lapio'r eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu rhoi nhw mewn dau fag i ddiogelu'r criwiau casglu

Rydyn ni'n casglu **poteli a jariau gwydr** o'ch cartref **bob wythnos**.

Beth sy'n mynd i ble?

Metelau, plastigion a chartonau



Ie plîs

Metelau

- Caniau diodydd, fel y rhai ar gyfer cwrw a diodydd meddal
- Tuniau bwyd, fel y rhai ar gyfer ffa pob a chawl
- Tuniau siocledi a bisgedi metel, a'u caeadau
- Aerosolau gwag
- Dalennau a hambyrddau ffoil glân
- Podiau coffi alwminiwm glân

Plastigion

- Poteli, potiau, tybiau a hambyrddau plastig du a brown
- Poteli gofal croen a nwyddau ymolchi plastig, fel y rhai ar gyfer hylif golchi dwylo, hylif golchi'r corff, gel cawod, siampŵ, cyflyrydd a bath swigod
- Poteli cynnyrch glanhau plastig, fel y rhai ar gyfer cannydd (bleach), hylif golchi llestri, cynnyrch golchi dillad a chyflyrydd ffabrig, a thybiau sy'n dal capsiwlau a thabledi golchi dillad
- Poteli diodydd plastig, fel y rhai ar gyfer diodydd meddal, llaeth a dŵr
- Potiau plastig, fel potiau hufen ac iogwrt
- Tybiau plastig, fel tybiau menyn, margarîn, siocled, losin a hufen iâ
- Hambyrddau plastig, fel hambyrddau cacennau, myffins a chig
- Basgedi plastig, fel y rhai sy'n dal ffrwythau a llysiau
- Hambyrddau a chaeadau cludfwyd plastig
- Poteli plastig o'ch garej, eich tŷ gwydr neu'ch sied, fel poteli bwyd planhigion hylifol nad yw'n wenwynig

Cartonau

- Cartonau bwyd a diod, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth a chawl



Dim diolch ✖

Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol:

- Potiau, sosbenni neu gyllyll a ffyrc metel
- E-sigaréts neu bennau fepio a'u batris
- Plastigion caled, fel cadeiriau gardd, teganau plant, biniau cegin, powlenni golchi llestri, potiau planhigion neu focsys Tupperware
- Tanwyr sigaréts
- Canisterau nwy
- Polystyren

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du:

- Rhwydi sy'n dal ffrwythau a llysiau
- Pecynnau swigod sy'n cael eu defnyddio i becynnu tabledi neu gapsiwlau
- Brwshys dannedd (dim rhai trydan)
- Raseli plastig - lapiwch yr eitemau hyn yn ddiogel mewn hen bapur newydd neu bapur cegin, neu eu rhoi nhw mewn dau fag i ddiogelu'r criwiau casglu

Cofiwch wneud y canlynol:

- Tynnu unrhyw bympiau o boteli ymolchi a'u rhoi yn eich bagiau du
- Tynnu unrhyw ffilm blastig a'i rhoi yn eich bagiau plastig coch
- Tynnwch unrhyw badiau amsugnol, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer hambyrddau cig, a'u rhoi yn eich bagiau du
- Gwagio a rinsio eitemau metel a phlastig
- Gwasgu eitemau plastig yn ddiogel i'w gwneud yn llai, os yn bosibl
- Gwneud yn siŵr bod aerosolau yn wag
- Gwneud yn siŵr bod y ffoil yn lân

Rydyn ni'n casglu **metelau, plastigion a chartonau** o'ch cartref **bob wythnos.**

Beth sy'n mynd i ble?

Cardbord





Ie plîs ✓

- Bocsys cardbord, fel y rhai ar gyfer grawnfwyd, cacennau, tabledi peiriant golchi llestri, esgidiau, hancesi papur, nwyddau ymolchi, a phast dannedd
- Tiwbiau papur tŷ bach
- Cartonau wyau
- Llewys cardbord sy'n cael eu defnyddio i becynnu bwyd, gan gynnwys prydau parod ac amlbecynnau
- Cardiau cyfarch heb fathodynnau, bwâu, ffoil, llwch llachar na rhubanau
- Cefn cardbord pecynnau batris a brwshys dannedd
- Amlenni cardbord a bocsys dosbarthu ar-lein
- Papur parseli neu bapur lapio brown

Dim diolch ✗

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du:

- Cardbord wedi'i drochi gan fwyd, olew, saim neu baent, fel bocsys pizza
- Cardiau cyfarch sydd â bathodynnau, bwâu, ffoil, llwch llachar neu rubanau allwch chi ddim eu tynnu
- Papur lapio gyda bwâu neu gliter

Rhowch yr eitemau hyn yn eich sach goch ar gyfer metelau, plastigion a chartonau:

- Cartonau bwyd a diod, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer sudd ffrwythau, llaeth neu gawl

Cofiwch wneud y canlynol:

- Torri a gwasgu cardbord mawr yn fflat i sicrhau ei fod yn ffitio yn eich sach, lle bo hynny'n bosibl. Byddwn ni'n casglu cardbord ychwanegol sydd wedi'i roi wrth ymyl eich sach – cyn belled â'i fod yn aros yn sych – ond ni ddylai fod yn fwy na 1m x 1m
- Cadw cardbord mor sych â phosibl

Rydyn ni'n casglu **cardbord** o'ch cartref **bob wythnos.**

Beth sy'n mynd i ble?

Papur





Ie plîs

- Llythyron
- Amlenni gwyn, gyda a heb ffenestri
- Cylchgronau
- Papurau newydd
- Llyfrynnau a chatalogau
- Papur argraffydd
- Symiau bach o bapur wedi'i ddarnio, fel derbynebau a biliau'r cartref - rhowch y rhain mewn cynhwysydd wedi'i wneud o bapur, fel bag papur gwyn neu amlen wen, cyn eu rhoi yn eich sach.

Cofiwch wneud y canlynol:

- Cadw'r papur mor sych â phosibl

Dim diolch

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du:

- Papur cegin, tywelion papur neu hancesi papur
- Cardiau crafu
- Papurau gludiog, fel nodiadau 'Post-it', labeli gludiog neu dâp papur
- Papur wal
- Papur lapio gyda bwâu neu gliter
- Papur wedi'i drochi gan fwyd, olew, saim neu baent
- Papur gwlyb o unrhyw fath

Rhowch yr eitemau hyn yn eich sach oren ar gyfer cardbord:

- Papur brown
- Amlenni brown

Rydyn ni'n casglu **papur** o'ch cartref **bob wythnos.**

Beth sy'n mynd i ble?

Bagiau a deunydd lapio plastig










Ie plîs

- Bagiau plastig, gan gynnwys bagiau siopa, bagiau pasta, bagiau bwyd anifeiliaid anwes a bagiau parseli
- Pecynnau creision a chnau
- Pecynnau bisgedi, deunydd lapio losin a siocled
- Bagiau bara
- Deunydd leinio bocsys grawnfwyd
- Labeli a deunydd lapio plastig poteli diodydd
- Caeadau ffilm prydau parod a ffilmiau plastig tebyg
- Bagiau bwyd wedi'i rewi
- Deunydd lapio cylchgronau a phapurau newydd
- Deunydd lapio amlbecynnau, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer amlbecynnau creision, cnau a losin
- Deunydd lapio poeth (shrink wrap) a modrwyau poteli a chaniau
- Bagiau sychlanhau a bagiau sy'n gorchuddio dillad newydd
- Deunydd pecynnu plastig sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer dosbarthu eitemau cartref, fel y deunydd sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer offer y cartref a'r gegin
- Bagiau compost gardd ac uwchbridd
- Bagiau ffrwythau, salad a llysiau gan gynnwys bagiau cynnyrch rhydd a bagiau wedi'u pecynnu ymlaen llaw
- Deunydd lapio pecynnau papur tŷ bach a phapur cegin
- Haenen lynu
- Pacedi bach, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer reis meicrodon, diodydd, bwyd babi/anifeiliaid anwes, a bagiau rhannu losin
- Pacedi bach ar gyfer cynhyrchion glanhau, fel y rhai sy'n cael eu defnyddio ar gyfer tabledi peiriant golchi neu beiriant golchi dillad
- Deunydd lapio swigod



Dim diolch

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du:

- Rhwydi plastig ar gyfer ffrwythau a llysiau
- Gwellt a chyllyll a ffyrc plastig
- Menig neu fasgiau tafladwy
- Pecynnau swigod fel deunydd pecynnu tabledi
- Gwastraff anifeiliaid anwes



Cofiwch wneud y canlynol:

- Rhoi eitemau yn rhydd yn eich bagiau coch. Peidiwch â chlymu eitemau ynghyd na'u rhoi mewn bagiau eraill. Mae cadw eitemau yn rhydd yn ein helpu ni i'w didoli a'u hailgylchu yn haws
- Pan fydd yn llawn, clymwch y bag yn dynn â chwlwm dwbl i atal y cynnwys rhag dianc
- Rhoi'r bag sydd wedi'i glymu y tu mewn i'ch sach goch, sy'n gallu cael ei hailddefnyddio gyda metelau, plastigion a chaniau cymysg

Pan fydd angen mwy o fagiau coch arnoch chi, gallwch chi eu harchebu ar-lein. Gallwch chi ddewis iddyn nhw gael eu danfon i'ch cartref neu gallwch chi eu casglu o'ch Canolfan Hwb leol.
sirgar.llyw.cymru/cyflwyno-cais

Rydyn ni'n casglu **bagiau plastig a deunydd lapio plastig** o'ch cartref **bob wythnos.**

Beth sy'n mynd i ble?

Batris cartref



Ie plîs

- Batris cartref, fel batris AAA, AA, B, C, D, DD a 9V



Dim diolch

Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol:

- E-sigaréts neu bennau fepio a'u batris
- Batris car
- Gwefrwyr batris
- Batris botwm lithiwm fel y rhai ar gyfer watsh a ffob allweddi ceir
- Batris sy'n gallu cael eu gwefru fel y rhai o liniaduron ac offer pŵer

Cofiwch wneud y canlynol:

- Rhoi'r batris cartref yn rhydd yn eich sach wen fach
- Atodi'r sach wen fach i un o'ch sachau eraill ar eich diwrnod casglu

Rydyn ni'n casglu **batris cartref** o'ch cartref **bob wythnos.**

Beth sy'n mynd i ble?

Gwastraff hylendid a chewynnau





Sganiwch y côd QR i gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth casgliadau am ddim hwn.

Ie plîs ✓

- Cewynnau tafladwy
- Sbwriel sy'n gysylltiedig â newid cewynnau, fel gwlân cotwm, weips gwlyb, a bagiau cewynnau
- Cynnyrch anymataliaeth, fel padelli gwelyau a leininau tafladwy, padiau anymatal, a phadiau cadair a gwely
- Bagiau stoma/colostomi, bagiau cathetr a photeli wrin
- Ffedogau a menig untro
- Tiwbiau bwydo

Dim diolch ✗

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du:

- Plasteri neu rwymynnau
- Gwastraff glanweithiol
- Gwastraff anifeiliaid

Dydyn ni ddim yn darparu casgliad ar gyfer nodwyddau a chwistrellau. Cysylltwch â'ch bwrdd iechyd lleol, eich tîm nyrsys ardal neu 111 y GIG i gael cyngor.

Cofiwch wneud y canlynol:

- Pan fydd yn llawn, clymwch y bag yn dynn â chwlwm dwbl i atal y cynnwys rhag dianc
- Os yw'ch bag wedi torri neu'n gollwng, rhowch y bag mewn bag porffor arall cyn ei roi yn eich man casglu
- Os oes angen rhagor o fagiau porffor arnoch chi, cysylltwch â ni:

sirgar.llyw.cymru/bagiau-porffor

Rydyn ni'n casglu **gwastraff hylendid a chewynnau** o'ch cartref **bob pythefnos** os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn.
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan.

Beth sy'n mynd i ble?

Gwastraff gardd






Sganiwch y côd QR i gael rhagor o wybodaeth neu i gofrestru ar gyfer y gwasanaeth casgliadau hwn y codir tâl amdano. Cofiwch, gallwch chi fynd â gwastraff gardd i'ch Canolfan Ailgylchu leol am ddim drwy gydol y flwyddyn.

Ie plîs

- Toriadau gwrychoedd, coed a llwyni
- Gwreiddiau
- Toriadau a chribinion porfa
- Dail
- Planhigion
- Blodau a chwyn

Trefnwch fod contractwr arbenigol yn casglu chwyn ymledol, fel clymog Japan neu bambŵ, ac yn eu gwaredu'n ddiogel.

Dim diolch

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bagiau du:

- Gwastraff anifeiliaid anwes, fel gwastraff cathod
- Deunydd gwelyau anifeiliaid anwes

Rhowch yr eitemau hyn yn eich bin gwastraff bwyd:

- Gwastraff bwyd, fel bagiau te neu groen ffrwythau

Ewch â'r eitemau hyn i'ch Canolfan Ailgylchu leol:

- Briciau, rwbel, pridd neu gerrig
- Ffensys
- Siediau neu byst
- Boncyffion coed neu ganghennau dros 4 modfedd (10cm) o ddiamedr
- Unrhyw gelfi gardd, boed yn blastig neu'n bren

Rydyn ni'n casglu **gwastraff gardd** o'ch cartref **bob pythefnos** rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr, os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan.

Beth sy'n mynd i ble?

Gwastraff na ellir







Ie plîs

- Weips gwlyb
- Gwastraff anifeiliaid, fel gwastraff cathod
- Deunydd gwelyau anifeiliaid anwes
- Plasterau a rhwymynnau
- Cynnyrch misglwyf
- Stympiau sigaréts
- Gwastraff eich hwfer
- Hancesi papur
- Yr holl wastraff cartref sy'n weddill na ellir ei ailgylchu o'ch cartref neu yn eich Canolfan Ailgylchu leol

Dim diolch

- Unrhyw eitemau sy'n gallu cael eu hailgylchu o gartref gan ddefnyddio'r casgliadau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor neu'r rhai sy'n gallu cael eu hailgylchu yn eich Canolfan Ailgylchu leol.

Cofiwch wneud y canlynol:

- Defnyddio bagiau du heb fod yn fwy na 60 litr y bag ar gyfer eich gwastraff na ellir ei ailgylchu
- Pan fydd yn llawn, clymwch y bag yn dynn â chwlwm dwbl i atal y cynnwys rhag dianc
- Gallwch roi mas hyd at dri bag du bob tair wythnos

Peidiwch â rhoi gwastraff ychwanegol wrth ymyl neu ar ben eich bagiau du. Mae hyn yn cael ei alw'n **'wastraff ochr'**. Nid ydyn ni'n casglu 'gwastraff ochr' ac efallai y bydd yn rhaid i chi dalu dirwy.

Rydyn ni'n casglu **gwastraff na ellir ei ailgylchu** o'ch cartref **bob tair wythnos.**
I wirio eich dyddiadau casglu, ewch i'n gwefan neu gwiriwch eich calendr casgliadau.

Sut ddylwn i gyflwyno fy neunydd ailgylchu a gwastraff na ellir ei ailgylchu ar fy niwrnodau casglu?

- Rhowch yr eitemau cywir yn y sachau a'r cynwysyddion cywir. **(Edrychwch ar dudalennau 4 i 15 i gael gwybod 'beth sy'n mynd i ble?')**
- Clymwch eich bagiau cegin gwastraff bwyd, eich bagiau coch a'ch bagiau du yn dynn.
- Caewch y caeadau ar eich biniau a'r fflapiau ar eich sachau i atal eich deunydd ailgylchu rhag dianc ac i gadw eitemau mor sych â phosibl.
- Defnyddiwch y biniau, y bagiau leinio, y bocsys, y sachau a'r bagiau sy'n cael eu darparu gan y Cyngor yn unig ar gyfer eich deunydd ailgylchu. Peidiwch â defnyddio unrhyw fath arall o gynhwysydd.
- Rhowch eich sachau a'ch cynwysyddion yn eich man casglu cyn **6am** ar eich diwrnod casglu.
- Casglwch eich biniau, eich bocsys a'ch sachau o'ch man casglu.

Sut allaf i gael rhagor o gymorth?

Rydyn ni yma i helpu. Os oes unrhyw gwestiynau gennych chi:

Sganiwch y côd QR

Ewch i www.sirgar.llyw.cymru/cysylltu-a-ni

Ffoniwch ni ar 01267 234567

(Dydd Llun i ddydd Gwener: 8.30am - 6pm)

Ewch i un o Ganolfannau Hwb y Cyngor neu Hwb Bach y Wlad

Eich gwasanaeth casgliadau Ailgylchu ar Wahân newydd
Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%